# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Committee Room 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Tachwedd 2020

Amser: 10.00 - 12.21

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6472

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS<br>Alun Davies AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Laura Anne Jones AS<br>David Rees AS |
| Tystion: | Jeremy Miles AS, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd<br>Sophie Brighouse, Llywodraeth Cymru<br>Katie Wilson, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.49, croesawodd y Cadeirydd Aelodau o'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, a ymunodd â'r cyfarfod ar gyfer eitemau 1 i 4 ar yr agenda.

## 2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Marchnad Fewnol y DU: Sesiwn dystiolaeth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Marchnad Fewnol y DU.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 4

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 4 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Marchnad Fewnol y DU: Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 5 Offerynnau negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3B

### 5.1 pNeg(5)32 – Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.24A, datganodd David Melding fuddiant mewn perthynas ag Eitem 5.1.

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon y dylai'r weithdrefn negyddol gael ei chymhwyso.

### 5.2 pNeg(5)34 – Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon y dylai'r weithdrefn negyddol gael ei chymhwyso.

## 6 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 6.1 SL(5)637 – Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 7 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 7.1 SL(5)636 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 7.2 SL(5)639 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 7.3 SL(5)642 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 7.4 SL(5)638 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 7.5 SL(5)641 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd yn yr adroddiad drafft, ynghyd â phwyntiau ychwanegol a nodwyd yn ystod y cyfarfod.

## 8 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 8.1 SL(5)607 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 8.2 SL(5)611 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 8.3 SL(5)616 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 8.4 SL(5)630 – Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda sylwadau pellach.

## 9 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 9.1 SL(5)635 – Rheoliadau'r Cynllun Seibiant Dyledion (Moratoriwm Lle i Anadlu a Moratoriwm Argyfwng Iechyd Meddwl) (Cymru a Lloegr) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 10 Offerynnau statudol y mae angen i'r Senedd gydsynio â hwy (Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol)

### 10.1 SICM(5)31 – Rheoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a'r sylwadau cysylltiedig. Nododd y Pwyllgor hefyd ei bod yn debygol y byddai'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn cael ei dynnu'n ôl a'i ail-osod, oherwydd bod y Rheoliadau y mae'r Memorandwm yn ymwneud â hwy wedi cael eu tynnu'n ôl o Senedd y DU ar 20 Hydref.

### 10.2 SICM(5)32 – Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a'r sylwadau.

**10.3 SICM(5)33 – Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2020 sy’n cynnwys diwygiadau i adran 155(2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a’r sylwadau.

**10.4 SICM(5)34 – Rheoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygiadau etc.) (Ymadael â’r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a’r sylwadau.

**10.5 SICM(5)35– Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a’r sylwadau.

**10.6 SICM(5)37 – Rheoliadau Gwastraff a Thrwyddedu Amgylcheddol etc. (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a’r sylwadau.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, mewn perthynas â’r holl Femoranda Cydsyniad Offeryn Statudol a ystyriwyd yn y cyfarfod, i godi pryderon unwaith eto ynghylch dull Llywodraeth Cymru o gyflwyno cynigion cydsynio ar gyfer cynnal dadl arnynt.

## 11 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

**11.1 WS-30C(5)174 – Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a’r sylwadau.

**11.2 WS-30C(5)175 – Rheoliadau Plaladdwyr (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a’r sylwadau.

**11.3 WS-30C(5)177 – Rheoliadau Sylweddau sy’n Teneuo’r Osôn a Nwyon Tŷ Gwydr wedi’u Fflworeiddio (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a’r sylwadau.

**11.4 WS-30C(5)178 – Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Dirymu etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau cysylltiedig, yn benodol bod anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a oes angen cydsyniad.

**11.5 WS-30C(5)179 – Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau.

**11.6 WS-30C(5)181 – Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau.

**11.7 WS-30C(5)182 – Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau.

**11.8 WS-30C(5)183 – Rheoliadau Cynnyrch Organig (Cynhyrchu a Rheoli) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau.

**11.9 WS-30C(5)184 – Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau.

**11.10 WS-30C(5)186 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Cyflyrau Ffytoiechydol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau.

**11.11 WS-30C(5)189 – Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau.

### 11.12 WS-30C(5)190 - Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad pellach ynghylch y datganiad.

## 12 Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru: Adroddiad Blynyddol

Nododd y Pwyllgor adroddiad blynyddol cyntaf Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol.

## 13 Papurau i'w nodi

### 13.1 Llythyr at y Llywydd: Craffu ar reoliadau Covid-19

Nododd y Pwyllgor y llythyr at y Llywydd.

### 13.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Y Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft ar gyfer Cynllunio o ran Sylweddau Peryglus

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

### 13.3 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Drafftio Biliau Cymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

### 13.4 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

## 14 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 15 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2): Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2), a chytunodd arno.

## 16 Craffu ar reoliadau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd - Protocol rhwng Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Senedd Cymru

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y protocol diwygiedig drafft mewn perthynas â chraffu ar reoliadau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, a chytunodd arno.